**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

23 Medi 2021

Annwyl bawb

Gwaith craffu gan Bwyllgorau'r Senedd ar Fframweithiau Cyffredin

Fel y gwyddoch, mae'r DU a'r llywodraethau datganoledig wedi bod yn negodi fframweithiau cyffredin ar gyfer rheoli ymwahanu y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd ers 2017. Mae cytundebau fframwaith cyffredin fel arfer yn gosod prosesau i'r llywodraethau benderfynu pryd i ddilyn yr un rheolau a phryd i ymwahanu. Yn yr ystyr hwn, mae iddynt oblygiadau ar gyfer arfer cymhwysedd datganoledig.

Mae'r Senedd a seneddau eraill y DU eisoes wedi ymrwymo i graffu ar fframweithiau cyffredin cyn iddynt gael eu cwblhau ac, mewn llythyr diweddar at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, fe wnaeth Llywodraeth newydd Cymru ailadrodd ei barn nad oes modd gorbwysleisio pwysigrwydd gwaith craffu ar fframweithiau. Mae'r llythyr hwn gan y Cwnsler Cyffredinol yn rhoi diweddariad ar fframweithiau cyffredin unigol ac mae wedi'i amgáu er gwybodaeth ichi. Fe wnaeth y Cwnsler Cyffredinol hefyd gyflwyno tystiolaeth i'n Pwyllgor yr wythnos hon, lle cafodd rhaglen y fframweithiau cyffredin ei thrafod.

Fe wyddoch fod gan y DU a'r llywodraethau datganoledig gynlluniau ar gyfer 26 o fframweithiau cyffredin ar gyfer Cymru. Ym mis Chwefror eleni, cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol ar y pryd fod mwyafrif y fframweithiau wedi'u cadarnhau dros dro a'u bod bellach ar waith. Mae saith o'r rhain wedi cael eu cyhoeddi hyd yn hyn. Rydym yn disgwyl i rai fframweithiau gael eu dwyn ymlaen mor gynnar â mis Hydref, ond rydym yn deall bod yr amserlen hon yn amodol ar hynt y negodiadau rhynglywodraethol.

Yn ogystal ag unrhyw waith a/neu ymchwiliadau y gallwch eu cychwyn ar y fframweithiau cyffredin fel rhan o'ch cylch gwaith, ac o ystyried rôl y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad o ran goruchwylio'r rhaglen fframwaith, byddwn yn parhau i bwyso am ddiweddariadau gan Lywodraeth Cymru ac yn rhannu unrhyw wybodaeth sy'n dod i law gyda chi.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Byddaf hefyd yn ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i dynnu sylw penodol at y maes gwaith hwn a'r effaith y gallai ei chael ar fusnes y pwyllgorau.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Y Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

07 Medi 2021

Annwyl Huw

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Gorffennaf. Mae hwn yn gyfnod o weithgarwch sylweddol ym maes y Fframweithiau Cyffredin ac rwy'n croesawu'r cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am ddatblygiadau yn y rhaglen.

Ar 31 Awst, cyhoeddwyd y fframwaith cyntaf i'w gwblhau'n llawn ac i fynd drwy'r broses graffu, sef y fframwaith ar Sylweddau Peryglus (Cynllunio). Mae hyn yn amlwg yn garreg filltir yn y rhaglen fframweithiau ac, er nad yw o reidrwydd yn broses gyflym nac yn un hawdd pan fo'r pedair Llywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd, mae hyn yn dangos ei bod yn bosibl i holl wledydd y Deyrnas Unedig gytuno ar faterion cymhleth, a hynny ar sail deg.

Mae'r Fframweithiau Cyffredin wedi bod yn gweithredu fel cytundebau dros dro rhwng swyddogion ers diwedd y llynedd. Yn ystod y cyfnod hwn, mae dull mwy agored a chydweithredol wedi'i fabwysiadu rhwng y Llywodraethau Datganoledig a Llywodraeth y DU mewn llawer o feysydd polisi fframwaith. Er enghraifft, yn y maes fframwaith lle'r wyf yn Weinidog Portffolio hefyd, sef maes Caffael, mae swyddogion yn sylwi eu bod bellach yn gweithio llawer mwy fel partneriaid. Yn hyn o beth, mae'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin wedi bod yn llwyddiant sylweddol. Er bod rhai meysydd fframwaith yn fwy datblygedig nag eraill yn y cyswllt hwn, rwy'n credu bod yr hyn yr ydym wedi'i weld hyd yma yn galonogol iawn ac yn hwb i'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin.

Fodd bynnag, mae angen datrys sawl mater cyn y gellir cwblhau'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin, yn fwyaf arwyddocaol y materion sy'n ymwneud â Deddf Marchnad Fewnol y DU (Deddf UKIM). Wrth i Fil Marchnad Fewnol y DU gael ei basio drwy Senedd y DU, roedd Llywodraeth Cymru yn glir bod y ddeddfwriaeth hon yn ddiangen ac yn llawdrwm. Oherwydd yr ansicrwydd a achosir gan Ddeddf UKIM o

ran gallu Senedd Cymru i ddeddfu mewn meysydd penodol, dechreuodd fy rhagflaenydd achos cyfreithiol yn herio Deddf UKIM drwy adolygiad barnwrol.

Fodd bynnag, yr wyf yn cydnabod yr angen i fwrw ymlaen â gwaith ar y prosesau sy'n sail i'r Fframweithiau Cyffredin. Felly, rwyf wedi cyfarwyddo swyddogion o Lywodraeth Cymru i ymgymryd â thrafodaethau pellach am y rhyngweithio rhwng Deddf UKIM a'r Fframweithiau Cyffredin, ar yr amod glir na fydd hynny'n gwneud drwg i'n safbwynt o ran ein hachos cyfreithiol. Yr ydym wedi ymrwymo o hyd i weithio gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, yn ddidwyll a heb wneud drwg i'r achos cyfreithiol, i symud y rhaglen hon yn ei blaen.

Yn ogystal â'r rhyngweithio rhwng Deddf UKIM a'r Fframweithiau Cyffredin, mae swyddogion yn parhau i wneud cynnydd ar waith arwyddocaol i fynd i'r afael â'r anawsterau a achosir gan faterion trawsbynciol eraill, sef effaith Protocol Gogledd Iwerddon, cyfeiriadau at Gysylltiadau Rhyngwladol a chanlyniad yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol. Mae cynnydd yn cael ei wneud ym mhob un o'r meysydd hyn. Mae'r Llywodraethau Datganoledig wedi dangos cryn hyblygrwydd ac ewyllys da wrth ddatblygu'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin, a welwyd yn fwyaf diweddar mewn perthynas â newidiadau i'r broses glirio ar gyfer fframweithiau dros dro.

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd craffu'n effeithiol ar y fframweithiau hyn. Mae'n hanfodol bod pwyllgorau perthnasol pob deddfwrfa yn cael cyfle i gyflawni eu rôl yn y maes hwn. Mae hwn yn faes gwaith cymhleth ac arloesol. Mae'n cwmpasu nifer o bynciau, adrannau a Gweinidogion ac, wrth gwrs, pedair Llywodraeth wahanol. Mae ansawdd y cynnyrch terfynol yn bwysig. Gall terfynau amser ysgogi gwaith, ond ni ddylem lynu'n gaeth wrthynt pan fydd hynny'n effeithio ar ansawdd. Mae prosesau craffu gan ddeddfwrfeydd, yn arbennig, yn cymryd amser. Byddai methu gwneud digon o gynnydd ar bob mater trawsbynciol yn atal craffu ar y fframweithiau a'u cwblhau. Yr wyf yn cyfarfod â Gweinidogion o'r tair Llywodraeth arall ar 8 Medi i drafod, yn rhannol, y ffordd orau o ymateb i heriau'r rhaglen mewn modd amserol.

Mae arweinwyr polisi yn y meysydd fframwaith yn y pedair Llywodraeth wedi cysylltu â'u rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r fframweithiau. Wrth i'r fframweithiau symud tuag at y cam cwblhau, rwy'n deall y bydd ymgynghoriad ychwanegol yn digwydd fel y bo'n briodol. Mae'r rhaglen fframweithiau yn newid sylweddol i'r ffordd y mae'r llywodraethau'n gweithio a dylai rhanddeiliaid gael rhoi mewnbwn i'r datblygiad.

Edrychaf ymlaen at siarad â'r pwyllgor ar 20 Medi am Fframweithiau Cyffredin a materion eraill.

Ynghlwm wrth y llythyr hwn atodaf ddiweddariadau ar Fframweithiau Cyffredin unigol.

Yn gywir

Mick Antoniw

**Mick Antoniw AS**

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

**Atodiad**

## Diweddariadau ar Fframweithiau Cyffredin Unigol

(yn ôl meysydd adrannol Llywodraeth y DU)

### Fframwaith y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol

#### Sylweddau Peryglus (Cynllunio)

Cafodd y fframwaith hwn ei gwblhau a'i gyhoeddi ar 31 Awst 2021.

### Fframweithiau'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol

#### Organau, Meinweoedd a Chelloedd

Y fersiwn y cytunwyd arni yn gynharach eleni yw'r fersiwn ddiweddaraf o hyd. Mae swyddogion yn disgwyl fersiynau wedi'u diweddaru yn fuan i'w hadolygu.

#### Diogelwch ac Ansawdd Gwaed

Y fersiwn y cytunwyd arni yn gynharach eleni yw'r fersiwn ddiweddaraf o hyd. Mae swyddogion yn disgwyl fersiynau wedi'u diweddaru yn fuan i'w hadolygu.

#### Labelu, Cyfansoddiad a Honiadau am Iechyd a Maethiad

Mae'r fersiwn gyfredol o'r Fframwaith Honiadau am Iechyd a Maethiad a adolygwyd gan Senedd Cymru yn aros yr un fath. Mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i gytuno ar eiriad ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol, ac mae'r Tîm Polisi bellach yn gweithio i adeiladu testun safonol ar y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn y Fframwaith a'r Concordat. Mae Swyddfa'r Cabinet hefyd wedi rhannu amserlen ar gyfer cyhoeddi'r Fframwaith ac maent yn cyfarfod â swyddogion ddechrau mis Medi i gwblhau'r fframwaith a'r concordat.

#### Diogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd

Cafodd y fframwaith ei gymeradwyo dros dro ym mis Rhagfyr 2020. Nid oedd y fersiwn hon o'r fframwaith yn cydnabod y trefniadau y cytunwyd arnynt rhwng y DU a'r UE o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Mae'r fframwaith bellach wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a hefyd Reoliadau Diogelwch Iechyd (Ymadael â'r UE) 2021.

Mae'r fframwaith diweddaraf wrthi'n cael ei baratoi i'w gyhoeddi a chaiff ei rannu maes o law.

### Fframweithiau'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau

#### Taliadau Hwyr

Y fersiwn y cytunwyd arni yn gynharach eleni yw'r fersiwn ddiweddaraf. Mae pob un o'r Llywodraethau Datganoledig yn fodlon. Ni ddisgwylir unrhyw newidiadau pellach ar hyn o bryd.

**Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol**

Mae'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau wedi ailddechrau gwaith ar y Fframwaith Cyffredin, sydd bellach yn cael ei enwi'n Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol, ar 14 Mehefin 2021, ac mae wedi cyflwyno opsiynau ar gyfer datblygu cwmpas fframwaith. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi nodi eu bod yn ffafrio trefniadau sy'n hwyluso cydnabyddiaeth o gymwysterau proffesiynol yn unol â chwmpas dychwelyd pwerau'r UE, ond bod rhaid ystyried pob datblygiad ochr yn ochr â chynnydd y Bil Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol drwy Senedd y DU. Mae'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau wedi cael gwybod na ddylai'r gwaith o weithredu Deddf UKIM fod yn rhan o'r Fframwaith Cyffredin.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl gweld drafft cyntaf o fframwaith erbyn dechrau mis Medi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi pryderon ynglŷn â'r amserlen a amlinellir ar gyfer cwblhau'r fframwaith erbyn 31 Rhagfyr 2021, gan nad yw hyn yn gadael llawer o amser ar gyfer gwaith craffu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

**Darparu Gwasanaethau**

Gohiriwyd y gwaith ar y Fframwaith Darparu Gwasanaethau ar ddiwedd 2020 drwy gytundeb consensws gan bob un o bedair Llywodraeth y DU, oherwydd diffyg amser i ymgymryd â'r broses gyda digon o amser i ddatblygu fframwaith cyn 31 Rhagfyr 2020.

Ar 20 Tachwedd 2020, ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol ar y pryd at yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau i ailfynegi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin ac i nodi yr hoffai Llywodraeth Cymru weld y fframwaith hwn yn cael ei flaenoriaethu yn 2021. Cafwyd ymateb gan yr Arglwydd Grimstone dyddiedig 6 Ionawr 2021 yn amlinellu y byddai swyddogion yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau yn cysylltu i fwrw ymlaen â'r gwaith ar y Fframwaith Gwasanaethau a'r Fframwaith Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol.

Ar 17 Awst cysylltodd swyddogion yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau â swyddogion Llywodraeth Cymru i adolygu gwaith 2020 ar y Fframwaith Darparu Gwasanaethau ac i ystyried opsiynau a'r camau nesaf.

Pe byddai'r Gweinidog yn penderfynu bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Darparu Gwasanaethau, rhagwelir y byddai'r gwaith yn dechrau'n gyflym ym mis Medi 2021.

**Caffael Cyhoeddus**

Er y bu rhai gwelliannau drafftio hefyd, nid yw'r rhain wedi newid hanfod yr hyn a gyflwynwyd i Senedd Cymru yn flaenorol.

Mae'r Cytundeb Fframwaith Amlinellol a'r Concordat yn ddogfennau ar wahân ar hyn o bryd ond maent yn debyg iawn. Er mwyn osgoi dyblygu, ystyrir cadw un o'r ddwy ddogfen yn unig, er nad yw'r gwaith hwn wedi'i ddechrau eto. Mae angen ychwanegu testun ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol ar ôl cytuno arno. Mae'r un peth yn wir am y testun ar ddatrys anghydfod.

## Fframweithiau'r Asiantaeth Safonau Bwyd

### Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

Y fersiwn y cytunwyd arni yn gynharach eleni yw'r fersiwn ddiweddaraf. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn gweithio gyda Safonau Bwyd yr Alban i ddiweddaru'r fersiwn bresennol o'r Fframwaith Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (y bu Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn craffu arno ar 1 Chwefror 2021) i ystyried argymhellion y pwyllgor a materion trawsbynciol unwaith y cytunir ar y rhain yn ganolog. Yn amodol ar gytuno ar y dull o ymdrin â materion trawsbynciol, y bwriad yw cwblhau'r Fframwaith Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid.

### Labelu a Safonau Cyfansoddiadol Bwyd

Y fersiwn y cytunwyd arni yn gynharach eleni yw'r fersiwn ddiweddaraf. Mae pob Llywodraeth Ddatganoledig yn fodlon ar y cynnwys. Mae'r fersiwn bresennol o'r Fframwaith Labelu a Safonau Cyfansoddiadol Bwyd, a adolygwyd gan Senedd Cymru, yn aros yr un fath. Yn amodol ar gytuno ar y dull o ymdrin â materion trawsbynciol, y bwriad yw cwblhau'r Fframwaith Labelu a Safonau Cyfansoddiadol Bwyd.

## Fframweithiau DEFRA

### Gweithredu System Masnachu Allyriadau yr Undeb Ewropeaidd

Mae'r crynodeb o'r fframwaith yn dal yn berthnasol gan ei fod yn egluro'r sail ddeddfwriaethol a'r trefniadau anneddfwriaethol y mae'r pedair Llywodraeth wedi'u mabwysiadu ac sydd ar waith o hyd ganddynt. Ers creu'r fframwaith, mae ystod o ddeddfwriaeth wedi'i rhoi ar waith er mwyn gallu gweithredu Cynllun Masnachu Allyriadau y DU. Mae rhanddeiliaid hefyd wedi cymryd rhan (gan gynnwys Galwad am Dystiolaeth ac Ymgynghoriad cyfredol) ar ddatblygiadau i Gynllun Masnachu Allyriadau y DU. Er y bydd hyn yn cael yr un effaith â gwneud newidiadau i Gynllun Masnachu Allyriadau y DU, mae'r prosesau llywodraethu ac felly'r bwriad a fynegir yn y fframwaith yn aros yr un fath.

### Sylweddau Ymbelydrol

Mae'r crynodeb fframwaith yn dal i gynrychioli'r sefyllfa gyffredinol. Mae'r pedair Llywodraeth wedi bwrw ymlaen â gwaith ar ddatblygu'r fframwaith.

### Cynhyrchion Organig

Disgwylir i grynodeb o'r Fframwaith Cynhyrchion Organig gael ei gwblhau yn y dyfodol agos a bydd yn cael ei rannu gyda Senedd Cymru. Mae'r pedair Llywodraeth yn parhau i weithio ar ddatblygu'r fframwaith dros dro ymhellach, gan gynnwys cwblhau concordat drafft a gweithredu rhai o'r trefniadau llywodraethu.

### Amrywogaethau Hadau a Phlanhigion

Mae'r crynodeb fframwaith yn dal i gynrychioli'r sefyllfa gyffredinol. Fodd bynnag, bydd rhai mân ddiwygiadau'n cael eu gwneud cyn i'r pedair Llywodraeth ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid, sydd wedi’u cynllunio ar gyfer dechrau'r hydref. Mae gwaith yn parhau rhwng y pedair Llywodraeth i ddatblygu'r fframwaith ymhellach, gan gynnwys cwblhau concordat drafft.

**Mae'r Fframweithiau DEFRA a ganlyn mewn sefyllfa debyg:**

- **Gwrteithiau**
- **Cymorth Amaethyddol**
- **Ansawdd Aer**
- **Iechyd Planhigion**
- **Y Technegau Gorau Sydd ar Gael**
- **Nwyon wedi'u fflworeiddio a sylweddau sy'n teneuo'r osôn**
- **Sootechneg**

Pan fo crynodebau'n bodoli ar gyfer y fframweithiau hyn, maent yn dal i gynrychioli'r sefyllfa gyffredinol. Ar gyfer fframweithiau dros dro, mae gwaith yn parhau rhwng y pedair Llywodraeth i ddatblygu pob fframwaith ymhellach, gan gynnwys diweddaru Cytundebau Fframwaith Amlinellol a drafftio/cwblhau Concordatiau fel y bo'n briodol, a mireinio/gweithredu trefniadau llywodraethu. Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i ystyried ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid ac effaith materion trawsbynciol.